cefnogi pobl

cefnogi annibyniaeth

# Gwasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai i bobl yng Ngheredigion

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cefnogi Pobl

## Beth yw Cefnogi Pobl?

Rhaglen sydd yn gyllid gan Lywodraeth Cymru i gynnig cymorth sy'n ymwneud â thai yw Cefnogi Pobl. Y prif amcan yw helpu pobl i fyw'n llwyddiannus ac yn annibynnol mewn llety sefydlog yn y gymuned. Dylai'r cymorth alluogi a grymuso pobl i ymdopi â'u sefyllfa mor **annibynnol** â phosibl. Gall y cymorth gynnwys help i wella sgiliau bywyd beunyddiol, rhyngweithio cymdeithasol a'u hymwneud yn y gymuned, ond mae'n **canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â thai.**

Mae'r mwyafrif o wasanaethau yn darparu cymorth fel y bo'r angen, pan fydd gweithiwr cefnogi yn ymweld â phobl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Bydd rhai gwasanaethau yn seiliedig yn y llety a chymorth yn gynwysedig.

## Pwy all gael mynediad at y rhaglen Cefnogi Pobl?

Mae'r rhaglen ar gael i bawb yng Ngheredigion sydd angen gwasanaeth cymorth sy'n ymwneud â thai.

Darperir gwasanaethau cymorth gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynnig cymorth i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o bobl.

## Beth yw Cymorth sy'n Ymwneud â Thai?

Nid yw'r Prosiect Cefnogi Pobl yn cynnwys yr holl wasanaethau y byddai pobl yn eu hystyried yn gymorth, ond yn benodol, mae'n canolbwyntio ar wasanaethau cymorth sy'n sicrhau bod pobl yn gallu byw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Gall y rhaglen helpu pobl drwy:

- Gynnig help i bobl reoli eu cyllidebau a rhoi cymorth wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau, delio â budd-daliadau, ymdrin â materion ariannol a chyfreithiol fel nad yw ôl-daliadau rhent yn crynhoi a'u bod yn y pen draw yn colli eu cartrefi;
- Cynnig help i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi;
- Helpu pobl i wneud apwyntiadau a'u cadw, gan gynnwys mynd gyda nhw ar y dechrau;
- Cefnogi pobl i gael mynediad at wasanaethau eraill y gallai fod eu hangen arnynt, gan gynnwys hyfforddiant , addysg bellach, gwaith, gweithgareddau iechyd a chymdeithasol;
- Cynorthwyo pobl i gynllunio ar gyfer eu prydau bwyd wythnosol, siopa a pharatoi bwyd (ond nid gwneud y gwaith iddyn nhw);
- Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau bywyd a fydd yn eu helpu nhw i ymdopi'n well â thasgau dyddiol;
- Cefnogi pobl gyda materion tenantiaethau a thai, cysylltu â landlordiaid, cael mynediad at gyngor ac eiriolaeth;
- Gweithgareddau adsefydlu - cymorth cyn ac ar ôl tenantiaeth;
- Cymorth gyda pherthnasoedd a theulu, cynnal rhwydweithiau cymorth a pherthynas dda â chymdogion a hefyd hyrwyddo sgiliau rhianta da; a
- Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â digartrefedd a helpu pobl i gael mynediad at lety.

Nid yw'r rhestr uchod yn llawn, ond mae'n dangos y math o wasanaethau cymorth sy'n cael eu hystyried yn gysylltiedig â thai.

Dyma rai pwyntiau pwysig y dylid eu cofio:

- Nid yw Cefnogi Pobl ond ar gael i unigolion o grwpiau agored i niwed sydd â materion sy'n ymwneud â thai ac nid ei fwriad yw cynnig cymorth cyffredinol;

- Dylai'r gefnogaeth helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl a dylai'r cymorth ganolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â thai;

- Nid oes gan y gwasanaeth Cefnogi Pobl ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth ond gallai gael ei gynnwys o fewn pecyn gofal;

- Nid yw'r rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu gwasanaeth yn y cartref na gofal personol, ac nid yw ychwaith yn darparu trafnidiaeth na gwasanaeth siopa. Fodd bynnag, bwriedir i'r gwasanaeth gynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau i wneud tasgau yn y cartref yn annibynnol neu i gael mynediad at wasanaethau eraill. Gall hefyd helpu pobl i gael mynediad at drafnidiaeth a fydd yn eu galluogi i siopa ar gyfer eu hunain. Disgwylir i weithwyr helpu i wneud tasgau "gyda" phobl ac nid "ar eu cyfer" ac annog defnyddwyr gwasanaeth i gymryd i'r awennau ym mhob agwedd o fywyd pob dydd;

- Nid yw Cefnogi Pobl yn cynnwys dyletswyddau cynnal na rheoli tai;

- Nid yw Cefnogi Pobl yn talu am wasanaethau cymdeithasol a hamdden;

- Er bod gweithwyr yn gallu helpu i ddelio â sefyllfaoedd o argyfwng, nid ydynt i'w gweld fel yr ymateb cyntaf i argyfwng.

## Y gwasanaethau Cefnogi Pobl sydd ar gael

**Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru**

Mynediad uniongyrchol at loches a chymorth fel y bo'r angen

☎ 01970 625585

@ info@westwalesdas.org.uk

**Cysylltiadau Cymunedol – Mirus Cymru**

Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

☎ 02920 236216

@ admin@mirus-wales.org.uk

www.mirus-wales.org.uk

**Barod Cymru**

Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer pobl â materion camddefnyddio sylweddau

☎ 01970 626470

@ rachel.wilson@barod.cymru

www.barod.cymru

**Y Gofal Ceredigion**

Cymorth fel y bo'r angen i'r digartref, teuluoedd a phobl ifanc sy'n gadael gofal

Cymorth fel y bo'r angen a chymorth i bobl mewn llety dros dro

☎ 01970 639791

☎ 01239 623983

@ bridgetc@caresociety.org.uk

www.caresociety.org.uk

**Tai Wales & West Housing**
Prosiect Auriol (ar gyfer cyn-droseddwyr) - mae'r prosiect hwn yn darparu cefnogaeth i unigolion i leihau'r risg o droseddu, pobl sy'n gadael carchar a'r rheini sydd mewn perygl o gael eu dal yn y system cyfiawnder troseddol.

Gwasanaeth i Bobl Ifanc - prosiect llety â chymorth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.

Gwasanaeth i Bobl Hŷn - gwasanaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai (o ran byw'n annibynnol a chanolbwyntio ar y gymuned) i'r rheini sydd mewn angen beth bynnag fo'u deiliadaeth.

Gwasanaeth Cefnogi'r Digartref - darparu llety brys ar gyfer unigolion digartref mewn 3 fflat neilltuol yn Aberteifi

☎ 01239 712000
contactus@wwha.co.uk
www.wwha.co.uk

**Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen yng Ngheredigion**
Rheolir gan Grwp Gwalia gyda dau ddarparwr

Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen yng Ngheredigion
- Cymorth fel y bo'r angen ar gyfer pobl â materion iechyd y meddwl yng de a chanolbarth Ceredigion

☎ 01570 423537
louise.jenkins@gwalia.com

Cymorth Iechyd Meddwl fel y bo'r angen yng Ngheredigion (Mind Aberystwyth) - cymorth fel y bo'r angen i bobl â phroblemau iechyd meddwl yng Ngogledd Ceredigion

☎ 01970 626225
info@mindaberystwyth.org

**Y Wallich**
Tŷ Nesaf - prosiect lleihau niwed mewn sefyllfa breswyl gyda chymorth 24 awr i unigolion sydd ag anghenion cymhleth.

9 Stryd y Gorfforaeth – llety dros dro gyda chymorth 24 awr i droseddwyr cyson â blaenoriaeth, pobl sy’n gadael carchar ac unigolion digartref sydd ag anghenion cymhleth.

13 Stryd y Gorfforaeth – llety dros dro i bobl ddigartref sengl neu unigolion sy’n barod i symud o brosiectau eraill ac sy’n dymuno cael mwy o annibyniaeth.

☎ 01970 612736 / 01970 625022
aberystwyth@thewallich.net
www.thewallich.com

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau, cysylltwch â'r Darparwr Gwasanaeth yn uniongyrchol neu drwy'r Tîm Cefnogi Pobl.

Os nad ydych yn fodlon ag unrhyw un o wasanaethau Cefnogi Pobl, dylech yn y lle cyntaf gysylltu â darparwr y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn.  Os ydych yn dal i bryderu, mae modd i chi gysylltu â'r Tîm Cefnogi Pobl a fydd yn gallu eich cynorthwyo â'ch pryderon.

## Tîm Cefnogi Pobl


**01545 574082**

**dss.supportingpeople@ceredigion.gov.uk**

**Cefnogi Pobl**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**Canolfan Rheidol**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UE**